

Ymddiriedolaeth Natur Sir Faesyfed

Darganfod Gilfach

Mawrth 2019 Adroddiad Crynodeb

Sir Faesyfed
Radnorshire



ar gyfer Cronfa Dreftadaeth y Loteri

Darylle Hardy, Rheolwr Prosiect 'Darganfod Gilfach'
a Joan Payne, Gwirfoddolwr YNM



PLAN
DO
REVIEW



Darganfod Gilfach

Nodau a chyflawniadau

Hen fferm fynydd ydy Gwarchodfa Natur Gilfach, ar ymylon mynyddoedd Cambria yn yr hen sir Faesyfed ym Mhowys. Mewn tirwedd olygfaol, mae'n llawn bywyd gwylt a hanes. Fe brynodd Ymddiriedolaeth Natur Sir Faesyfed (RWT) y fferm ym 1988 a thros y 30 mlynedd diwethaf mae wedi adnewyddu'r tŷ hir a'r ysgubor, gwella rheolaeth o'r ffermdir ar gyfer bywyd gwylt a sefydlu cyfleusterau ar gyfer ymwelwyr, gan gynnwys dehongliadau a rhwydwaith o lwybrau troed.

Mae gan y warchodfa natur fioamrywiaeth gyfoethog a threftadaeth ddiwylliannol gref. Mae dros 2,400 o rywogaethau wedi'u cofnodi yng ngwarchodfa Gilfach, llawer yn anghyffredin, ond mae'r warchodfa'n enwog yn anad dim am ei hamrywiaeth o gennau prin. Mae ei threftadaeth ddiwylliannol yn ymestyn yn ôl 3,000 o flynyddoedd. Mae yna garnedd gron o'r oes efydd ynghyd â llwybrau a ddefnyddiwyd gan filwyr Rhufeinig, mynaich Sistersaidd o'r 12fed ganrif ac, yn fwy diweddar, hen reilffordd canolbarth Cymru.

'Am le gwych – fe stopion ni am bicnic ond doedden ni jest ddim yn gallu gadael heb gael golwg manylach.'

Bioamrywiaeth
gyfoethog a **THREFTADAETH**
ddirwylliannol **gref.**



'Rydyn ni wedi stopio wrth fynedfa'r warchodfa sawl tro, ond dyma'r tro cyntaf i ni gerdded y llwybr heibio i'r cerfluniau i'r fferm. Taith gerdded fendigedig.'

'Am ddarganfyddiad rhyfeddol – dod o hyd i'r warchodfa'n sydyn ar ôl gyrru ar hyd yr A470 am 30 o flynyddoedd!'

Derbyniodd Gilfach arian ar gyfer y prosiect oddi wrth Gronfa Dreftadaeth y Loteri, Cyfoeth Naturiol Cymru, Sefydliad Bernard Sunley ac Ymddiriedolaeth Oakdale, a'r gymuned leol. Bu'r arian yn gymorth i wireddu'r nod o gynyddu proffil Gilfach fel un o safleoedd natur gorau Cymru, ac fe greodd gyfleoedd i amrywiaeth ehangach o bobl gael darganfod Gilfach.

Mae gan Gilfach ddehongliad newydd ac mae ei threftadaeth wedi'i gofnodi'n well.



Mae amrywiaeth ehangach o bobl wedi ymweld â Gilfach a dywedodd eu bod wedi mwynhau eu hunain.



Mae llawer o bobl wedi gwirfoddoli eu hamser ac wedi ddysgu sgiliau newydd.



Gwaith Cyfalaf – Cyflawniadau allweddol

Mae prosiect Darganfod Gilfach wedi gwneud gwelliannau sylweddol i'r safle o ganlyniad i'r buddsoddiad.

Dehongliad Newydd

Gwaith cyfalaf i wella dehongliad y safle ac i roi arddull gyson iddo, ac adeiladu canolbwynt croesawu, sef 'y Caban'. Gwnaed gwelliannau hefyd i'r rhwydwaith o lwybrau troed ac i'r goleuo, y toiledau a'r gofod gweithio yn y cyfleusterau i ymwelwyr yn Hen Fuarth y Fferm.

Creu rhith-fynediad

Mae yna bellach bresenoldeb cryf ar-lein gyda sawl ffilm am warchodfa Gilfach ar gael i'w gwyllo ar y safle ac yn y cartref ar y sianel YouTube. Mae proffil y safle hefyd wedi tyfu ar y cyfryngau cymdeithasol.

Cyfleusterau gwell ar gyfer ymwelwyr

Roedd gwaith ar yr adeiladau rhestredig yn Hen Fuarth y Fferm yn cynnwys trwsio ffos gerrig y tanc carthion, gwella darbodaeth o ran dŵr a golau, a chreu mannau mwy defnyddiol ar gyfer gweithgareddau a swyddogaethau swyddfa.

Gwella mynediad i'r anabl

Mae yna fannau parcio penodol i'r anabl nawr yng ngwarchodfa Gilfach, gwell llwybr hygyrch a hwylus â chylch troi, a thestun mawr ar y pyst dehongli. Mae'r Caban, y Beudy a'r Ysgubor i gyd yn hygyrch i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn.

Uwchraddio'r Beudy

Hwn bellach yw'r prif ffynhonnell wybodaeth am Gilfach. Mae'r dehongliad yn defnyddio paneli rhyng-gyfnewidiol tymhorol, gyda lle ar gyfer arddangosfeydd bwrdd a phosteri. Mae'r dehongliad newydd yn hyblyg, yn hawdd i'w lanhau ac yn debyg o bara, gan adlewyrchu ymarferoldeb ardal sy'n cael ei rhannu ag ystumod a gwenoliaid.

Ehangu amrywiaeth y dehongliadau

Mae'r prosiect wedi creu canllawiau adnabod cennau, taflen pili pala, cardiau post newydd a chasgliad o ffotograffau y gellir eu defnyddio i hybu digwyddiadau ac mewn llenyddiaeth yn y dyfodol.

Gwella rhwydwaith y llwybrau troed

Mae arwyddion a chyfeirbwyntiau clir ar y safle nawr, ynghyd â map llwybrau sy'n cysylltu â nhw. Mae'r map ar gael i'w lawrlwytho o'r parth Wi-Fi yn ogystal â gwefan RWT.

Llwybrau troed newydd

Crëwyd llwybr troed lefel uchel newydd a heriol yn rhoi golygfeydd ysbennedd dros Gilfach, ac mae llwybr arall wedi'i ddatblygu fel 'Tro trwy Amser', yn canolbwyntio ar dreftadaeth ddiwylliannol Gilfach.

O GANLYNIAD I'R BUDDSODDIAD HWN:

3/4

o'r ymwelwyr â'r Caban fod y wybodaeth wedi'u hannog nhw i grwydro o gwmpas Gilfach.

Mae ymwelwyr yn fwy tebygol o grwydro Gilfach o'i gymharu â'r gwaelodlin yn 2014.

MAE MWY O GERDDWYR YN DEFNYDDIO'R LLWYBRAU.

92%

o'r bobl sy'n mynychu cyrsiau hyfforddi o'r farn bod yr Ysgubor yn lleoliad da ar gyfer hyfforddi.

327M

o lwybrau troed wedi cael eu gwella er mwyn creu dewis ehangach o lwybrau ar draws y safle.



'Mae taith gerdded newydd yr Wyloer yn ardderchog.'

'Mae'r holl le'n fendigedig – dyn ni o'r farn bod y pethau 'dych chi wedi'u gwneud yma'n ardderchog.'

Rhaglen Weithgareddau – Cyflawniadau allweddol

Ochr yn ochr â'r gwaith cyfalaf, ariannodd y prosiect raglen o weithgareddau i ddenu amrywiaeth ehangach o bobl i warchodfa Gilfach. Nod y rhaglen hon hefyd oedd adeiladu gallu'r staff a'r gwirfoddolwyr i gofnodi ac i ofalu am dreftadaeth ddiwylliannol y safle'n well, ac i gynyddu ymwybyddiaeth o'r rhywogaethau llai carismatig ond hanfodol bwysig yng ngwarchodfa Gilfach.

Cefnogi mynediad i deuluoedd ac oedolion difreintiedig.
Trwy gydol y prosiect, mae staff a gwirfoddolwyr wedi gweithio gyda sefydliadau lleol i gynyddu ymwybyddiaeth o'r safle ac i annog pobl i'w ddefnyddio. Roedd y rhaglen yn cynnwys gweithgareddau arbennig, teithiau cerdded tywysedig a sgysiau.

Rolau staff a gwirfoddolwyr.

Mae gan warchodfa Gilfach nawr dîm newydd o wirfoddolwyr o'r enw Ceidwaid Gilfach, sy'n cyfarfod yn rheolaidd i ymgysylltu ag ymwelwyr ac i gynnal arolygon bioamrywiaeth.

Hyfforddiant staff a gwirfoddolwyr.

Darparodd y prosiect 16 o sesiynau hyfforddi ffurfiol i wirfoddolwyr a staff gan ddefnyddio amrywiaeth o arbenigwyr o'r tu allan. Roedd y rhain yn cynnwys, ymysg pethau eraill, hyfforddiant mewn hanes llafar, gwneud ffilmiau a sut i ddelio â sefyllfaoedd dyrsg ag ymwelwyr.

Datblygu adnodda Gilfach.

Mae yna nawr gasgliad o ddeunyddiau trefnus ar gael i'w defnyddio mewn dehongliadau yn y dyfodol ac mewn gweithgareddau yn y dyfodol. Mae llyfrgell ffotograffau digidol wedi'i chreu ynghyd â chompendiwm o rywogaethau cyffredin a herbariwm botanegol.

Monitro rhywogaethau a gwaith arolygu.

Darparodd y prosiect y capasiti a'r ysgogiad i wneud mwy o waith arolygu. Mae yna nawr raglen o waith arolygu rhywogaethau sy'n golygu y bydd gwaith arolygu'n parhau ymhell wedi i'r prosiect ddod i ben.

Diwrnodau hyfforddiant bywyd dan y lens.

Prif nod y rhan hon o'r gwaith oedd cynyddu ymwybyddiaeth a gwybodaeth am y rhywogaethau llai yng ngwarchodfa Gilfach, gan gynnwys mwsoglau, cennau ac anifeiliaid di-asgwrn-cefn. Cynhaliwyd 12 digwyddiad ffurfiol yn cynnig hyfforddiant ar rywogaethau, ynghyd â digwyddiadau a chymorth dilynol.



'Ro'n i wrth fy modd â'm hymrweliad heddiw.'

ARWEINIODD Y BUDDSODDIAD YN Y PROSIECT AT:

100 o wirfoddolwyr yn rhoi o'u hamser i'r safle, gan gynnwys 30 o wirfoddolwyr newydd i YNM.

23 o ddigwyddiadau ar gyfer sefydliadau sy'n cefnogi teuluoedd ac oedolion difreintiedig, gyda 234 yn mynychu.

4,369 WEDI MYNYCHU SESIYNAU.

Hyfforddiant ar gyfer dros hanner gwirfoddolwyr rheolaidd y prosiect.

774 o bobl yn ymweld â Gilfach am y tro cyntaf.

184 O WEITHGAREDDAU

247 o bobl yn mynychu sgysiau ar Gilfach.

8 o gysylltiadau ac ymweliadau ag ysgolion uwchradd a sefydliadau addysg uwch lleol.

CYSYLLTIADAU Â 57 O SEFYDLIADAU ALLANOL.

'Mae'r prosiect wedi gwella cyfleusterau yn y warchodfa ac wedi'i gwneud yn fwy diddorol a deniadol i ymwelwyr. Mae wedi rhoi llawer o foddhad i fod yn rhan ohono.'

'Diwrnod gwych – llawer o weithgareddau a staff llawn gwybodaeth parod eu cymwynas.'

Casgliadau a'r camau nesaf

Mae Darganfod Gilfach wedi bod yn brosiect llwyddiannus dros ben.

Mae wedi helpu i wneud y safle'n fwy hygrych ac wedi agor y safle i grwpiau a defnyddwyr newydd. Mae hefyd wedi helpu i gynyddu proffil y mwsoglau, cennau ac anifeiliaid di-asgwrn-cefn llai carismatig ond hanfodol bwysig sy'n byw yno.

Ni fu'r gwaith cyfalaf yn gwbl ddi-straen. Mae'r prosiect wedi helpu RWT i ddatblygu ei dealltwriaeth o ddefnyddio cyfalaf a bydd fframweithiau a chostau mwy realistig yn cael eu cynnwys mewn cynigion yn y dyfodol. Mae RWT wedi dangos gwerth buddsoddi mewn safleoedd fel Gilfach oherwydd

yr ewyllys da a'r adnoddau sylweddol y mae'r gymuned yn gallu'u darparu i helpu â'r gwaith cynnal a chadw a rheoli parhaus.

Mae Darganfod Gilfach wedi dangos gwerth buddsoddi swm cymharol fach o arian mewn cymuned leol. Mae wedi dangos sut y gall baratoi a threfnu gwirfoddolwyr yn y gymuned, diogelu'r bioamrywiaeth lleol trwy feithrin sgiliau arolygu'r gymuned a helpu i gysylltu grwpiau mwy amrywiol i safle unigryw ac arbennig.



Bydd YNM yn parhau i geisio buddsoddiad ar gyfer Gilfach, yn enwedig o ran ariannu staff penoddedig i ymgysylltu ag ymwelwyr ac i weithio â gwirfoddolwyr. Mae'r ffaith i'r prosiect hwn gael ei gyflawni'n llwyddiannus, a'r effaith a gafodd, wedi dangos pam y dylai arianwyr barhau i gefnogi YNM â'r amcan hwn.